LAMPETER TOWN COUNCIL  **CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.**

COFNODION CYFARFOD MISOL 31ain O ORFFENNAF 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd Y Maer Derek Wilson, yr aelodau i'r Cyfarfod.
PRESENNOL: Y Maer Cynghorydd Derek Wilson;
Cynghorwyr:
Cecilia Barton; Elsie Dafis; John Davies; Greg Evans; Robert (Hag) Harris; Lynda Mason-George; Robert Phillips; Kistiah Ramaya; Chris Thomas; Selwyn Walters; Dorothy Williams a'r Cynghorydd Sirol Ifor Wiliams.

2. YMDDIHEURIADAU

Cyng Andrew Carter; Margaret Davies-Evans.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Cyng C.Thomas a'r Gyng. D.Williams pan yn trafod y cais am gymhorthdal oddi wrth y gymdeithas *Llambed yn ei Blodau*.
Cyng. C.Barton pan yn trafod y cais am gymorth ariannol oddi wrth yr Elusen *Cyngor Henoed Ceredigion*.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD - 26/06/2008

Derbyniwyd cofnodion Mis Mehefin fel rhai cywir.

5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

5.1 Ardal Gwahardd Alcohol (AGA);

Derbyniwyd ymateb oddi wrth yr Arolygydd Calvin Griffiths. Dywedwyd fod yr angen am *Ardal Gwahardd Alcohol* o dan adolygiad a bod yr heddlu'n ymwneud ag adolygiad manwl o'r problemau sy'n arbennig i Lambed. Bydd angen fwy o amser i gwblhau'r adolygiad ond ar ôl ei orffen dylai greu darlun real o'r angen am AGA ar gyfer y dref yn gyfangwbl, neu ar gyfer ardal arbennig o fewn y dref neu os oes angen AGA o gwbl. Byddai'n hysbysu'r Cyngor Tref ar ôl datblygiadau pellach. Mynegodd y Cyng. Greg Evans syndod ar yr ymateb gan ei fod o dan yr argraff y rhoddwyd yr Adolygiad, naill ochr, am y tro, gan yr heddlu. Nid oedd y cam-ddefnydd o alcohol mewn lleoedd agored cyhoeddus yn cael ei amgyffred yn broblem ganddynt. Megis un digwyddiad a gymerodd lle'n y gorffennol ac nid oedd hyn yn teilyngu cyflwyno AGA o fewn y dref. Gresynwyd yr oedi gan y Cyng. Evans a bod 2 flynedd wedi mynd heibio ers pan ddechreuwyd y drafodaeth. Roedd nifer o aelodau'n poeni am ddigwyddiadau posibl y dyfodol. Penderfynwyd i gysylltu â *Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion* a'r Uwcharolygydd Alun Harries i fynegi cefnogaeth di-ildio'r Cyngor Tref i'r AGA ar gyfer y dref, a dweud bod trigolion yn haeddu clywed canlyniad i'r mater. Pwysodd y Cyng. C.Thomas ar unigolion i adrodd y camddefnydd o alcohol mewn mannau agored y dref, at sylw'r heddlu.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Cyfethol aelod newydd ar gyfer y Cyngor Tref; Cysylltodd y Clerc â'r Cyngor Sir. Dywedwyd y dylid ymdrechu'n ddwys i lenwi'r sedd wag. Fel canlyniad derbyniwyd Hysbyseb Cyhoeddus i'w harddangos yn y cyffiniau yn gwahodd 10 etholwr yn yr Ardal Etholiadol Llanbedr PS i wneud cais am Etholiad, erbyn yr 20fed o Awst. Os bydd y CSC yn derbyn 10 enw erbyn yr amser hynny, gall aelodau o'r cyhoedd gyflwyno eu henwau gyda'r bwriad o sefyll etholiad. Petai ond un enw'n cael ei gyflwyno i'r CSC yna byddai'r person hwnnw/honno'n cael ei h/ethol yn ddiwrthwynebiad fel Cynghorydd

Tref heb sefyll etholiad. Os derbynnir mwy nag un enw, gelwir etholiad i'w ariannu gan y Cyngor Tref. Os ni chyflwynir un enw i'r CSC erbyn y dyddaid hwn, mi fydd yn bosibl cyfethol aelod newydd.
Os na dderbynnir 10 enw gan GSC erbyn yr 20fed o Awst bydd trywydd arall yn codi. Nid oedd nifer o aelodau o blaid cyfethol ac yn teimlo y dylai darpar ymgeiswyr fod yn barod i sefyll etholiad petai'r angen yn codi. Yng ngwyneb y ffaith y gellid cynnal Etholiad mor ddiweddar â'r 1af o Fai 2008 (ac ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb arwahan i'r 14 cynghorydd presennol a'u hethlowyd yn ddi-wrthwynebiad), teimlwyd ei fod ond yn briodol i gadw'r sedd yn wag am y presennol. Penderfynwyd i gysylltu ag Un Llais Cymru am gyngor parthed arfer orau.

6.2 **Darpariaeth o Arwyddion newydd ar gyfer y dref**: Ystyriwyd y dewisiadau posibl ac mi benderfynwyd ar ddangosiad a dyluniad y 4 darpar arwydd a baratowyd gan y Cwmni *The Signs of the Times* sydd wedi ei leoli'n Sir Bedford. Cyfanswm y gost y 4 arwydd yw £9,300 (heb TAW + chludiant). Meddylid y dylid cysylltu â'r CSC cyn archebu'r arwyddion i ofyn caniatâd i waredu'r arwyddion presennol er mwyn gwneud lle ar gyfer y rhai newydd, i ofyn petai'r arwyddion newydd yn medru cael eu gosod ar y pyst presennol, eu bod hwy sef CSC yn barod i osod yr arwyddion yn y lleoedd priodol a hefyd, petaent yn barod i wneud cyfraniad ariannol ar gyfer y gost. (Y Maer DW; Cyng. RP).

6.3 **Y Manol ger yr Archfarchnad Somerfield:** disgwylir ateb oddi wrth Rheolwr yr Archfarchnad Somerfield.

6.4 **Arwydd "Rhoi Cyfle i Draffig o Gyfeiriad Arall":** yn disgwyl ateb oddi wrth y Cyngor Sir.

6.5 **Loriau Trwm Hir a Llwythog (LTH&LL) yn defnyddio Stryd yr Eglwys a Bryn-yr-Eglwys**; derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth GSC yn dweud petaent yn gosod arwydd yn cynghori anaddasrwydd Heol Bryn-yr-Eglwys ar gyfer LTH&LL ar y groesfan A475 a Stryd yr Eglwys, y gallai'r arwydd amharu ar farn gyrrwyr loriau sy'n cario nwyddau ar gyfer yr Archfarchnad Somerfield. Mae nifer helaeth o'r drosglud beunyddiol yn cael ei ymgymryd gan yrrwyr sydd heb fod yn gyfarwydd â llunwedd yr heol ac efallai iddynt droi'n ôl pan welent yr arwydd. Mae problem felly'n codi, petai'r CSC yn gosod yr arwydd ymhell i ffwrdd o'r heol A475 (ee ger yr Eglwys neu Neuadd y Sgowtiaid) byddai hyn yn golygu fod gyrrwyr wedi troi i gyfeiriad Stryd yr Eglwys cyn iddynt weld yr arwydd. Ni fyddai lle ganddynt i droi'n ôl ac ni fyddai opsiwn ond i deithio ymlaen ar hyd Bryn-yr-Eglwys. Gofynnai'r CSC petai gan y CT wybodaeth ar y nifer o LTH&LL sy'n defnyddio Bryn-yr-Eglwys ac os oedd yna haliwr neilltuol yn defnyddio'r heol. Adroddodd y Cyng. Greg Evans fod oddeutu 12 o loriau'n defnyddio'r heol yn feunyddiol – doedd dim un haliwr arbennig yn gwneud hyn. Awgrymodd y dylai arwydd yn gwahardd loriau gyda'r geiriau *Mynediad Yn Unig* ar yr arwydd, ymddangos ar y groesfan A475 a Stryd yr Eglwys. Byddai hyn yn atal loriau rhag teithio i fyny Bryn-yr-Eglwys ond yn gadael i loriau Somerfield i deithio ar yr heol nes cyrraedd mynediad yr Archfarchnad.

6.6 **Calor Pentref y Flwyddyn:** Cafodd aelodau wybod bod y cais a luniwyd ac a gyflwynwyd gan y Cyng. Greg Evans, wedi llwyddo i gyrraedd rownd terfynol y gystadleuaeth. Mae hyn yn golygu y bydd y beirniaid yn ymweld â Llambed ac yn dyst i gyflwyniad am y dref, i beidio â pharhau'n hwy na 2 awr. (Mae'r beiriniaid yn ymweld â Llambed ar brynhawn Dydd Iau 11eg o Fedi am 3:00pm) (Y Cyng. G.Evans; y Maer DW/ Dirprwy-Faer SW)

6.7 **Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch**: penderfynwyd y dylai aelodau'r Cyngor Tref ddatgan rhoddion a lletygarwch â gwerth yn uwch na £25.00.

6.8 **Dŵr Cymru: derbyniwyd ateb i'r ymholiad**. Nid yw archwilion yn cael eu cario allan yn rheolaidd ond yn hytrach ymetyb i gwynion a dderbynnir oddi wrth gwsmeriaid. Gresynwyd y ffaith gan aelodau, roeddent o'r farn y dylai archwiliadau cyson fod mewn lle er mwyn osgoi problemau'n y dyfodol.

6.9 **Cynllun Hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned:** Un Llais Cymru: Cytunodd y Gyng. D. Williams i ddarganfod mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r 6 modiwl megis *Y Cyngor*, *Y Cynghorydd, Y Cyngor fel Cyflogydd; Deall y Gyfraith*; *Cyfarfodydd y Cyngor* a *Deall Cyllid Llywodraeth Leol*. Hoffai'r Clerc a nifer o Gynghorwyr fynychu'r cyrsiau.

6.10 **Carnifal Llambed:** Adroddwyd fod cynifer o wirfoddolwyr wedi cynnig eu gwasanaeth ar gyfer sefydlu pwyllgor y Carnifal.

6.11 **Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger Llyfrgell y Dref:** Cytunwyd i gysylltu â'r Cwmni Yswiriant i geisio arain ar gyfer atgyweirio'r difrod. Penderfynwyd i gysylltu hefyd â'r Cyngor Sir i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i lynu'r hysbysfwrdd ar wal y llyfrgell i'w wneud yn fwy cadarn, ac i osgoi fandaliaeth yn y dyfodol. Byddai'r Cyngor Tref yn ymgymryd â'r gost. (Y Maer DW)

6.12 **Cystadleuaeth Cadw Cymru'n Daclus**: Adroddodd y Cyng. C.Thomas ei fod yn ymgymryd ag ymholiadau pellach ynglŷn â'r gystadleuaeth. Gobeithir y gall y biniau ail-gylchu a gyfeiriwyd atynt yn y cofnodion blaenorol, gael eu cynnwys o dan y cynllun hwn.

6.13 **Wal yn difrodi: tu ôl i'r Banc Natwest:** Derbyniwyd ateb oddi wrth y Cyngor Sir yn adrodd fod y Swyddog â Gofal Adeiladu wedi ymweld â'r safle ac wedi archwilio'r wal dan sylw. Mae ar hyn o bryd yn ceisio darganfod pwy yw perchennog y wal. Ar ôl hyn, gall gwaith gael ei ymgymryd i geisio datrys y perygl o dan Adain 77 o'r Ddeddf Adeiladu 1984 (Strwythurau peryglus).

7. MATERION YN CODI

7.1 **DOT.CYM**: Eglurodd y Cyng. Rob Phillips y cefndir i'r Ymgyrch (gweler yr atodiad). Penderfynwyd cefnogi'r fentr. (Y Cyng. RP)

7.2 **Parcio yn rhad ac am ddim ar faes parcio'r Cwmin;** byddai aelodau'n ystyried y mater yn ystod y dyfodol (Y Cyng. HH)

7.3 **Gweithgaredd Codi-Arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010:** Penderfynwyd mewn cyfarfod blaenorol i drefnu gweithgaredd codi-arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd i'w chynnal yng Ngheredigion ym 2010. Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf er mwyn galluogi aelodau i feddwl am weithgareddau codi arian.

8. GOHEBIAETH

8.1 **Llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Mr Picton & Helena Jones, 4 Teras Peterwell, Llambed** yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i newid Côd-Post Llys Idwal gan, ar hyn o bryd, y mae Llys Idwal a Teras Peterwell yn berchen ar yr un Côd-Post megis SA48 7BX, sy'n achosi dryswch. Cytunwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir a'r Swyddfa Bost. (Cyng. GE)

8.2 **Cymuned ar y Cyd:** Meithrin Cydberthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref: Canllawiau Terfynol ; Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC): dosbarthwyd y ddogfen.

8.3 **Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11**: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion: dosbarthwyd i aelodau cyn cyflwyno ymateb.

8.4 **Adolygiadau o'r trefniadau Etholiadol:** LLCC: Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth leol i Gymru ("y comisiwn") o dan adran 57 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gynnal adolygiadau o'r trefniadau etholiadol ym mhob un o'r 22 o brif ardaloedd cynghorau Cymru. Cyfeiria'r term "trefniadau

etholiadol" at nifer y cynghorwyr mewn sir neu fwrdeistref sirol, nifer yr adrannau etholiadol sy'n rhan o'r brif ardal a'u ffiniau, nifer y cynghorwyr i'w hethol ym mhob adran ac enwau'r adrannau. Penderfynwyd i beidio ag ymateb i'r Ymgynghoriad.

8.5 Llythyr oddi wrth S.Davies, Cadeirydd Mydtara, 45 Maesyderi, Llambed parthed torri'r glaswellt yr hen gae chwarae yr hen ysgol gynradd, i'r gogledd o Eglwys Sant Pedr ac ar y ffordd i Stâd Maesyderi. Roedd yn gofyn petai'n bosibl i'r cae gael ei dorri'n rheolaidd o dan arweiniad y Cyngor Sir, y perchennog presennol. Y cae hwn yw un o'r lleoedd prin gwyrdd sydd bellach yn bodoli'n Llanbedr PS a defnyddir y cae i ddifyrru plant y dref . Cytunodd y Cyng. Hag Harris i drafod y mater ymhellach â S.Davies ac â phartion perthnasol o fewn y CSC mewn cais i sefydlu cynllun torri gwair rheolaidd. (Cyng HH)

8.6 Cynnig i drosglwyddo stoc dai y Cyngor Sir i landlord newydd dielw sef Tai Ceredigion: nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau y bydd pob tŷ cymdeithasol yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2012. O dan SATC mae'n rhaid i bob cartref gyflawni'r gofynion canlynol sef bod mewn cyflwr da; yn saff ac yn ddiogel; wedi ei wresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi ei insiwleiddio'n dda; ceginau ac ystafelloedd baddon modern; yn cael eu rheoli'n dda; mewn amgylchfyd braf a diogel; & i'r graddau y mae hynny'n bosibl dylai fod yn addas at ofynion penodol yr aelwydydd (ee anabledd penodol). O ran y Cyngor Sir Ceredigion bydd hyn yn golygu gwario £40 miliwn ar stoc dai'r Cyngor yn y pum mlynedd gyntaf, a £136 miliwn dros y deng mlynedd ar hugain nesaf.

Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gallu codi'r arian hwnnw dan y rheolau ariannol cyfredol, ac felly mae'n cynnig trosglwyddo'r stoc dai i landlord newydd dielw sy'n dwyn yr enw Tai Ceredigion. Tenantiaid y Cyngor a fydd yn penderfynu yn y pen draw a hynny mewn pleidlias bost a gaiff ei chynnal yn yr Hydref eleni. Mae'r CSC yn cydnabod y rôl y mae'r Cynghorau Cymuned yn ei chyflawni o ran darparu gwybodaeth a rhoi sicrwydd i bobl yn lleol, ac felly, gwahoddir 2 gynrychiolydd i gyfarfod am 7pm Dydd Llun 22ain o Fedi 2008 yn Swyddfa'r Cyngor Sir ym Mhenmorfa, Aberaeron. Pwrpas y cyfarfod yw rhoi cyfle llawn i gynghorwyr i ddeall cefndir y penderfyniad i gynnal pleidlais ymhlith y tenantiaid ac i rhoi pob cyfle i ofyn cwestiynau. Enwebwyd y Cyng. Elsie Dafis; Lynda Mason-George a'r Dirprwy-Faer Selwyn Walters i fynychu'r Cyfarfod. Cynigodd y Cyng. Harris i egluro cefnidir y trefniant hwn mewn cyfarfod a gynhelir yn y dyfodol. (Cyng ED;LM-G; SW; HH)

8.7 Cymru Wledig: Rhifyn Pen-blwydd yn 80oed: er gwybodaeth.

8.8 Cynllun Ceredigion ar gyfer pobl 50+ , Grŵp Llambed 50+ - Agenda'r Cyfarfod nesaf a chofnodion cyfarfod y 19eg o Fai: er gwybodaeth (Cyng CB; DW)

8.9 Ombwdsmon: Sut i gwyno bod aelod o awdurdod lleol wedi torri'r Côd Ymddygiad: er gwybodaeth.

8.10 Cylchgrawn *Llambed yn ei Blodau*: Cynhaliwyd y gystadleuaeth *Llambed yn ei Blodau* ar y 23ain o Orffennaf. Datganwyd llongyfarchion i'r trefnyddion y gystadleuaeth am eu llafur caled ac am wneud Llambed yn le mwy atyniadol ar gyfer ymwelwyr a thrigolion.

9. MENTER LLAMBED

9.1 Adroddodd y Cyng. Greg Evans fod Menter Llambed wedi llwyddo i dderbyn cymhorthdal i ariannu Swyddog a staff am y 3 blynedd nesaf.

9.2 Cytunwyd y byddai'r Cyng Greg Evans a'r Athro David Austen yn gwnued cyflwyniad ar y testun *Transition (Trawsnewid) Llambed* yn ystod y cyfarfod misol nesaf.

10. CYNLLUNIO

10.1 Adroddwyd fod y ceisiadau canlynol wedi eu caniatau gan y Cyngor Sir:

10.1.1 Codi annedd: tir ger Dan y Wenallt, Lôn Glynhebog, Llambed. Ymgeiswyr: Mr & Mrs Julian Evans; Rhif y Cais: A080369

10.1.2 Newid defnydd ac estyniad ar gyfer annedd: Rhif 7 Stryd y Farchnad. Ymgeiswyr: Mr & Mrs R Band. Rhif y Cais: A080238.

10.1.3 Gwneud newidiadau mewnol: Neuadd yr Eglwys, Heol yr Eglwys, Llambed: Ymgeisydd: Eglwys Sant Pedr Llambed. Rhif y cais; A080323LB. Caniatâd Adeilad Rhestredig yn unol ag amodau penodedig.

10.1.4 Trosi'r garej presennol i estyniad sengl un-llawr, Green Cottage, Teras Greenfield, Llanbedr PS. Rhif y Cais: A080525.

10.2 Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

10.2.1 Codi estyniad a gwaredu â rhan o'r annedd: lleoliad: Eryl, 61 Heol y Bont, Llambed. Rhif y cais: A08068. Ymgeiswyr: Mr & Mrs Howell, Eryl, 61 Heol y Bont, Llambed. Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

10.2.2 Codi 3 rhandy a lle i barcio car cyfedrol: Lleoliad; Tir ar Stryd y Farchnad Llambed. Rhif y Cais: AO80688. Ymgeisydd:Mr E.Davies, Wenllys, Stryd Newydd, Llambed. Sylwadau'r Cyngor Tref: Yn gyffredinol dim gwrthwynebiad ond pwyswyd ar yr ymgeisydd i ddarparu lle ar gyfer parcio ar y tir o dan sylw.

10.3 Cyfarfod safle: Ymgeiswyr: Mr & Mrs GL Jones. **Y bwriad; Dymchwel y garej cyfedrol a chodi tair fflat, Garej Mountwalk, Mountwalk, Llambed**. Rhif y Cais: A080303. Hysbyswyd aelodau y bydd y Panel Archwilio Safleoedd CSC yn cwrdd ar y safle i drafod y cais ac fe wahoddir y Cyngor Tref i anfon cynrychiolydd i fod yn bresennol yn yr archwiliad fel sylwebydd. Penderfynwyd y byddai'r Maer Derek Wilson yn cynrychioli'r Cyngor Tref: (dyddiad y cyfarfod a adderbyniwyd ar ôl y cyfarfod hwn 28/08/2008 am 1.30pm) (Y Maer Derek Wilson; Cynghorwyr Sir HH & IW)

11. CYLLID

11.1 Penderfynwyd i gyfrannu tuag at yr elusennau canlynol:

11.1.1 Cyngor Henoed Ceredigion £50.00

11.1.2 Marie Curie Gofal Cancr £100.00

11.1.3 Ambiwlans Awyr Cymru: £50.00

11.1.4 Mudiad *Llambed yn ei Blodau* £100.00

11.2 Archwiliodd Mr Dave Smith Cadeirydd presennol y Siambr Fasnach Llambed, gyfrifon (archwiliad mewnol) y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2007-08, a'u cael yn gywir**.** Arwyddwyd adrannau 1 & 2 y ffurflen BDO Stoy Hayward, yr Archwilwyr Allanol, gan Gadeirydd y Cyngor Tref, Swyddog Cyfrifol Cyllid y Cyngor Tref a'r Archwiliwr Mewnol, ar yr 11eg o Orffennaf 2008. Yn unol ag argymhelliad tryloywder a bod yn agored pan yn ymwneud â materion llywodraeth leol, y mae'r cyfrifon ar gael ar gyfer aelodau'r cyhoedd i'w harchwilio o'r 21/07/2008 tan y 15/08/2008. Dyddiad yr archwiliad allanol yw'r 22ain o Awst 2008. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, sef y 1af o Ebrill 2008, roedd yr arian tu cefn gan y CT oddeutu £136,500, a oedd yn cynnwys swm o £11,200 a dderbyniwyd mewn ewyllys un o drigolion Llambed a oedd wedi marw ym 2005 (£10,000 + £1,200 llog a dderbyniwyd)

11.3 Shelter Cymru: derbyniwyd llythyr yn diolch i'r CT am y rhodd o £25.00. Maent yn cynnig gwasanaeth rhad, annibynnol a chyfrinachol i glientiaid sydd wedi eu gwneud yn ddigartref.

11.4 Costau Etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned 2008 CCC £129.30: mi fydd y swm yn cael ei dynnu allan ym mis Ebrill 2009 o'r Praesept ar gyfer 2009/10.

11.5 Llogi Neuadd y Dref ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Tref (6) £123.00

11.6 Llogi Neuadd Fictoria, Young at Heart – Te Prynhawn (6) £61.50

11.7 Penderfynwyd peidio a chyfrannu'n ariannol ar gyfer yr elusen DASH (Disabilities and Self Help). Elusen leol yn Aberaeron yw DASH sy'n ymroi i helpu plant ag anabledd, a'u teuluoedd, o fewn Ceredigion.

11.8 Cyflog y Clerc Gorffennaf £463.95; Treth Incwm £86.58; Golau/Gwres/Storio £20.00.

11.9 Bydd CAVO yn cynnal sesiwn hyfforddi ar *Rhoi a Chadw Arian o'r Cyhoedd* ar y 12fed o Awst. Enwebwyd y Cyng. Elsie Dafis i fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor Tref.

11.10 Gof Alec Page (trwsio arwyddion a gât ym Mharc-yr-Orsedd) £41.13

11.11 Canolfan Arddio Robert: prynu planhigion £39.96

12. IS-BWYLLGORAU

12.1 LLWYBRAU CERDDED (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

12.1.1 Adroddwydd mai cyfrifoldeb y CT yw'r problemau a welir ar y llwybr cerdded sy'n arwain o'r Eglwys Sant Pedr i Stâd Maesyderi. (Cyng, Sir IW)

12.2 PALMANTAU: ni dderbyniwyd adroddiad.

12.3 GOLEUADAU STRYD

12.3.1 Adroddodd y Gyng. D.Williams fod golau stryd ar Heol y Bryn wedi diffodd. Cytunodd i adrodd y nam at GSC.

12.4 CTCC

12.4.1 Adroddiad Misol Mehefin 2008 a dderbyniwyd gan Mr Richard Griffiths Arolygydd CTCC, CSC: Bu yna 2 gais i archwilio deunydd digidol gan yr heddlu'n ymwneud â difrod troseddol. Mae problem yn bodoli ar un camera sef cyddwysiad ar y gromen. Roedd yn bleser ar Mr Griffiths i fod yn medru adrodd fod y cynllun o uwchraddio'r offer yn Llambed, yn awr wedi ei gwblhau a bod gallu y camerau i droi, wedi gwella'n aruthrol. Mae'r dref yn berchen ar gofiaduron fideo digidol "indigovision", sy'n darparu delweddau o ansawdd uchel sy'n cael eu recordio ar y safle ac yn cael eu trosglwyddo i'r ystafell reoli CTCC ar gyfer dibenion tystiolaeth, yn ôl yr angen.

12.4.2 Ymweliad â'r ystafell reoli, Aberystwyth: penderfynwyd i geisio 2 ymweliad i'r Ystafell Reoli CTCC sef ar Ddydd Llun yr 20fed o Hydref am 7.30pm ac ar Nos Iau 23ain o Hydref am 7.30pm.

12.5 YR IAITH GYMRAEG

12.5.1 Bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod cyn bo hir i drafod Polisi yr Iaith Gymraeg ar ôl ei gyflwyniad flwyddyn yn ôl.

13. U.F.A.

13.1 Penderfynwyd i adrodd i'r Adran Priffyrdd CSC fod ymsuddiant ar y Stryd Fawr Llambed, o flaen Neuadd y dref; sydd angen sylw brys o ran diogelwch.

13.2 Penderfynwyd i anfon blodau at y Gyng. Margaret Davies-Evans sydd wedi bod yn teimlo'n anhwylus yn ddiweddar.

13.3 Gwybodaeth ar gyfer Ymwelwyr – Llambed: adroddodd y Cyng. C.Thomas fod yr wybodaeth dwristiaeth yn annigonol.

14. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 28ain o Awst am 6:30pm yn Neuadd y Dref ac yna cinio i ddiolch i Mrs Hazel Davies, sydd wedi ymddeol yn ei swydd fel Cynghorwraig, am ei gwasanaeth - i ddilyn yn syth yn Nhŷ Bwyta Tseineaidd Ling-di-Long am 8.00pm. (£12.00 am bob person a £5.00 ar gyfer anrheg i Mrs Hazel Davies)